# Comisiwn y Senedd

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Gynhadledd 4B - Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 13 Rhagfyr 2021** |
| Amser: | **12.30 - 13.40** |

## Cofnodion: SC(6)2021(4)

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Comisiwn: | **Elin Jones AS (Cadeirydd)**<br>**Rhun ap Iorwerth AS**<br>**Janet Finch-Saunders AS**<br>**Ken Skates AS**<br>**Joyce Watson AS** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**<br>**Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd**<br>**Arwyn Jones, Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu**<br>**Dave Tosh, Cyfarwyddwr Adnoddau**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau**<br>**Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd**<br>**Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid** |
| Eraill yn bresennol: | |

## 1 Cyflwyniad

1.a Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Ni chafwyd ymddiheuriadau.

1.b Datgan buddiannau

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

1.c Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd.

## 2 Strategaeth yr ystâd

Trafododd y Comisiynwyr nifer o ffactorau sy'n berthnasol i ddatblygu Strategaeth Ystâd Comisiwn y Senedd.

Roedd y rhain yn cynnwys anghenion swyddfeydd hirdymor i'r Aelodau a staff, defnydd mwy hyblyg ac ystwyth o swyddfeydd, ystyried yr angen am bresenoldeb ar sail ranbarthol ehangach a'r defnydd o'r Pierhead.

Rhoddodd y Comisiynwyr adborth ar yr ystyriaethau strategol a nodwyd, a gwnaethant ofyn am wybodaeth ychwanegol ynghylch rhai meysydd.

## 3 Diweddariad ynghylch COVID-19

Hysbyswyd y Comisiynwyr am ddatblygiadau mewn perthynas â gwasanaethau'r Comisiwn, a nodwyd y byddai busnes y Cyfarfod Llawn yn cael ei gynnal yn rhithwir yn ystod yr wythnos i ddod, a bod y Senedd ar gau i'r cyhoedd.

Cadarnhawyd y byddai'r Aelodau a'u staff yn parhau i allu cael mynediad i Dŷ Hywel at ddibenion busnes, neu pan fo anghenion o ran llesiant os yw eu hamgylchiadau'n golygu nad ydynt yn gallu gweithio'n effeithiol gartref.

Cytunodd y Comisiynwyr, yng ngoleuni'r sefyllfa iechyd cyhoeddus presennol, y dylid gohirio neu ganslo digwyddiadau ar yr ystâd am y cyfnod hyd at hanner tymor mis Chwefror.

Gwnaethant gytuno i ail-ystyried y sefyllfa hon yn eu cyfarfod ar 31 Ionawr.

## 4 Cyllideb Atodol 2021-22

Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Comisiynwyr am y sefyllfa ariannol yn 2021-22.

Gan ystyried y tanwariant mewn perthynas â'r gyllideb costau etholiad a neilltuwyd, a'r tanwariant a ragwelir mewn perthynas â'r gyllideb a neilltuwyd ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol, cymeradwyodd y Comisiynwyr y Memorandwm Esboniadol a fydd yn cynnwys gostyngiad o £1.70 miliwn yng Nghyllideb 2021-22 a osodwyd. Bydd y Memorandwm Esboniadol yn cael ei osod fel rhan o broses y Gyllideb Atodol.

Roedd hyn i fod yn amodol ar ganlyniadau cyfrifon mis Rhagfyr, a bydd y Comisiynwyr yn cael eu hysbysu ynghylch unrhyw newid.

Cafodd y llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ei gymeradwyo a'i nodi gan y Comisiynwyr hefyd.

## 5 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddiogelwch

Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Comisiynwyr am y mesurau sy'n cael eu cymryd o ran materion diogelwch a amlygwyd yn ddiweddar.
Rhoddwyd gwybod i'r Comisiynwyr hefyd am drafodaethau sy'n mynd rhagddynt ar lefel uwch rhwng y Comisiwn a heddluoedd yng Nghymru.

## 6 Y diweddaraf am recriwtio lefel uwch

Yn unol â gofynion y Ddirprwyaeth ar gyfer ymgynghori, hysbyswyd y Comisiwn am y cynnydd a wnaed tuag at y cynigion y cytunwyd arnynt yn flaenorol i wneud newidiadau i bortffolios Cyfarwyddwr fel rhan o'r gwaith o addasu'r uwch strwythur.

Cawsant y wybodaeth ddiweddaraf am werthusiadau a oedd wedi digwydd ac ymarferion recriwtio ar y gweill. Roedd y rhain yn ymwneud â swyddi'r Prif Gynghorydd Cyfreithiol, Cyfarwyddwr Adnoddau a Chyfarwyddwr Busnes y Senedd.

Gwnaeth aelodau Bwrdd Gweithredol y Comisiwn, ac eithrio'r Clerc, eu hunain yn absennol ar gyfer yr eitem hon.

## 7 Papurau i'w nodi:

7.a Diweddariad gan y Bwrdd Gweithredol (penderfyniadau RAD)

Nododd y Comisiynwyr y crynodeb arferol o benderfyniadau recriwtio a ddarperir i bob cyfarfod o'r Comisiwn.

## 8 Unrhyw fater arall

- Hysbyswyd y Comisiynwyr am ohebiaeth gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus (i) adroddiad y Pwyllgor ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn. Roedd pedwar argymhelliad, a byddai ymateb yn cael ei ddarparu ar gyfer cyfarfod nesaf y Comisiwn; a (ii) llythyr ychwanegol yn gofyn am ystyriaeth y Comisiwn.

Cadarnhawyd i'r Comisiynwyr fod yr ymgynghoriad ar gynigion i newidiadau i Reolau'r Swyddog Cyfrifyddu yn fyw.

Ers y cyfarfod diwethaf, fe wnaeth y Comisiynwyr un penderfyniad yn ymwneud ag ymestyn y contractau presennol a oedd ar waith ar gyfer Cynghorwyr Annibynnol i'r Comisiwn.